



---

## YSGOL PLAS COCH

---

Mr Osian Jones BA  
Pennaeth Head Teacher

E-bost/E-mail: [mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk](mailto:mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk)

Mai'r 2il 2019

Annwyl rieni a gwarchodwyr,

Fel y gwyrddoch, bydd disgyblion Bl 2 - 6 yn eistedd profion statudol llythrennedd a rhifedd Llywodraeth Cymru rhwng Mai 7fed a Mai 14eg. Mae rhain yn brofion mae pob plentyn ym Mlynnyddoedd 2 – 9 drwy Gymru yn eu gwneud. Maent o gymorth i athrawon ddod i farn am sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn ogystal â chynllunio'r camau nesaf i wella'r sgiliau.

Byddwch yn derbyn gwybodaeth am sut wnaeth eich plentyn yn y profion Darllen a Rhifedd Rhesymu unwaith y bydd yr ysgol yn derbyn y wybodaeth cyn diwedd y tymor. O FI 3 ymlaen, bydd y wybodaeth yma'n dangos cynnydd eich plentyn o un flwyddyn i'r llall hefyd.

Dyma ychydig o wybodaeth i chi am y profion:

- Bydd y profion yn cael eu gweinyddu mewn modd fydd yn sicrhau fod y broses yn un mor gyfforddus â phosib i'r plant.
- Nid TASAau (SATs) yw'r profion yma ond profion llythrennedd a rhifedd. Nid oes TASAu wedi bod yng Nghymru ers blynnyddoedd. Dim ond mewn ysgolion yn Lloegr mae'r TASAu yn bodoli.
- Os gwelwch yn dda, peidiwch a rhoi pwysau ar eich plentyn ynglyn a'r profion. 'Snapshot' 30-45 munud yw'r profion sydd yn ran fach iawn o'r darlun cyfan o blentyn.
- Ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 2 a 6, nid y profion sy'n cael eu defnyddio i benderfynu ar ddeilliannau diwedd y Cyfnod Sylfaen / lefelau diwedd CA 2, y byddant yn eu cael ar ddiwedd y flwyddyn hon. Fe all y profion gael eu defnyddio fel darn o dystiolaeth ond mae'r athrawon yn edrych ar y plentyn cyfan wrth ddod i benderfyniad am y deilliannau / lefelau.
- Mae'r prawf Rhifedd Gweithdrefnol wedi newid i fod yn asesiad ar lein fydd yn cael ei weinyddu rhwng nawr a diwedd y flwyddyn addysgol. Bydd y tri prawf arall yn newid yn raddol dros y dair mlynedd nesaf.

Isod mae amserlen yn nodi ar ba ddyddiad y byddant yn gwneud pa prawf. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am y wybodaeth uchod, cysylltwch efo'r ysgol.

Diolch yn fawr,

Osian Jones

	Darllen Cymraeg	Darllen Saesneg	Rhifedd Rhesymu
<b>Blwyddyn 2</b>	Mai 8fed 9:30		Mai 14eg 9:30
<b>Blwyddyn 3</b>	Mai 8fed 9:30	Mai 10fed 9:30	Mai 13eg 9:30
<b>Blwyddyn 4</b>	Mai 8fed 9:30	Mai 10fed 9:30	Mai 13eg 10:30
<b>Blwyddyn 5</b>	Mai 8fed 9:30	Mai 10fed 9:30	Mai 13eg 9:30
<b>Blwyddyn 6</b>	Mai 8fed 9:30	Mai 10fed 9:30	Mai 13eg 10:30